

Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn  
**Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 13 Tachwedd 2017 am 6:45p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Jim Bryan,  
Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

**36. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**37. DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**38. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2017 yn gywir.

**39. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**40. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Adroddodd y Clerc am y penderfyniadau cynllunio a ganlyn a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych:

02/2017/0797 – Tir y tu ôl i Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun – Datblygu 0.09 hecтар o dir trwy adeilad annedd, gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiedig (cais amlinellol) – Caniatwyd  
02/2017/0543 (Cais Adeilad Rhestredig) – Black Dog Picture Framing, 7 Stryd Mwrog, Rhuthun – Rhannol ddymchwel adeilad unllawr ac adeiladu estyniad deulawr – Caniatwyd  
02/2017/0908 – Castle Hotel, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Manylion rhwystr acwstig a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 4 caniatâd cynllunio 02/2017/0226 – Cymeradwywyd  
02/2017/0907 – Castle Hotel, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Manylion deunydd y gazebo a'r pergola yn unol ag amod rhif 3 caniatâd cynllunio 02/2017/0226 – Caniatwyd  
02/2017/0881 – 2 Maes y Dre, Rhuthun – Adeiladu porth i'r blaen – Caniatwyd  
02/2017/0918 - Castell Newydd, 30 Stryd y Brython, Rhuthun - Gwaith i dair coeden sy'n cael eu cwmpasu gan Orchymyn Cadw Coed T1 Parc Brynhyfryd, Rhuthun – Caniatwyd  
02/2017/0899 – 8/8A Stryd y Farchnad, Rhuthun – Amrywio amod rhif 1 caniatâd cynllunio cod 02/2012/0929 i ganiatáu 5 mlynedd ychwanegol ar gyfer dechrau'r gwaith - Caniatwyd

**41. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ceisiadau am ganiatâd cynllunio a ganlyn a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i gael eu sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** *nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn:*

**02/2017/0889 – Clwb Nos y Venue, Rhuthun**

Newid defnydd cyn glwb nos i unedau hunan storio.

**02/2017/0982 – Lodge Goch, Ffordd Llanfair, Rhuthun**

Adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd (cynllun diwygiedig).

**Cais 02/2017/1014 – Clwb Peldroed Rhuthun, Caeau Chwarae Coffa, Ffordd Parc y Dre, Rhuthun**

Codi eisteddle dan do newydd, estyniad i'r eisteddle dan do presennol a chodi ffens perimedr i amgáu a diogelu'r caeau chwarae.

**42. DATHLIADAU ARFAETHEDIG NOS GALAN AR SGWÂR SANT PEDR**

Ystyriodd yr aelodau asesiad risg Grŵp Cymuned Rhuthun a rhagor o wybodaeth ynghylch y digwyddiad. Penderfynwyd gofyn am farn yr Heddlu am y trefniadau, ac ymhellach

**PENDERFYNWYD:** *gwneud penderfyniad yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 27 Tachwedd.*

**43. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 4 Rhagfyr 2017, am 6:45p.m.*

#### **44. CYFLWYNIAD AR BROSIECT ARFAETHEDIG YN GYSYLLTIEDIG Â'R AIL RYFEL BYD – FFATRI ARFAU RHYFEL RHUTHUN**

Croesawodd y Cynghorydd Ian Lewney, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, aelodau'r Pwyllgor Amwynderau a Julie Masters, Shepherds Hut Reworked, a gyflwynodd gyflwyniad ar 'Dan y Radar', prosiect yn edrych ar y gweithwyr yn y Ffatri Arfau Rhyfel yn yr Hen Garchar yn ystod yr Ail Ryfel Byd, y faciws a ddaeth i'r ardal a defnyddio Bryniau Clwyd i wro bomiau o'r ardaloedd trefol mwy o faint. Bydd Theatr Gerddorol Rhuthun yn cyflwyno cais am £100,000 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gynnal Dathliad 1940au yn Rhuthun, ym mis Medi 2018, i gyd-fynd â phenwythnos Drysau Agored o bosibl, a fyddai'n cynnwys ailgreu ffilm yr Amgueddfa Rhyfel Imperialaidd o ferched yn cerdded i'r ffatri, a fyddai'n arwain i barti stryd gyda bwydydd wedi'u hysbrydoli gan yr 1940au a gŵyl gerddoriaeth 1940au yn y Carchar, ynghyd a chynhyrchiad theatr stryd yn dangos pwysigrwydd marchod yn ystod y rhyfel. Y bwriad yw adeiladu ar hyn yn y blynyddoedd dilynol, gan anelu at dri pherfformiad theatre stryd ac ymweliadau cyfnewid rhwng disgyblion ysgolion cynradd yn Rhuthun a Lerpwl. Dywedodd Ms. Master ei bod wedi ei phenodi'n Gydlynnydd y cais, ac i ddechrau roedd yn gofyn am lythyr o gefnogaeth gan Gyngor Tref Rhuthun a sefydliadau eraill, a phetai'r cais yn llwyddiannus, byddai'n chwilio am gynrychiolwyr i fod yn aelodau grŵp llywio'r prosiect. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau. Diolchodd y Cynghorydd Lewney iddi am ei chyflwyniad.